

# Gwerthusiad o Raglen Esgyn - Adroddiad Gwerthuso Terfynol

## Crynodeb

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Mawrth 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad o Raglen Esgyn ('Lift' yn Saesneg). Roedd y Rhaglen wedi dechrau ym mis Ionawr 2014 mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi 2013 ac yn fwy penodol i'r ymrwymiad i gynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth erbyn diwedd 2017 i bobl oedd yn byw ar aelwydydd heb waith yn yr hirdymor.<sup>1</sup>
- 1.2 Gweithredai Rhaglen Esgyn mewn naw ardal, yn seiliedig ar 12 o glystyrau<sup>2</sup> Cymunedau yn Gyntaf (CyG) ledled Cymru a'r ardaloedd a ddewiswyd i gynnal Esgyn ynddynt yn fwriadol amrywiol (o ran maint, natur wledig a natur yr amddifadedd a geid yno). Ym mhob ardal yn y Rhaglen, recriwtiwyd timau bach o Fentoriaid i gynorthwyo oedolion o oedran gweithio oedd yn byw ar aelwydydd heb waith yn yr hirdymor. Roedd cyfranogwyr cymwys yn ymuno â'r Rhaglen yn wirfoddol, gyda'r Mentoriaid yn asesu eu dyheadau i gael swydd, hyfforddiant neu addysg ac yn eu cynorthwyo i lunio cynlluniau (gweithredu) datblygu personol er mwyn rhoi strwythur iddynt symud tuag at gyflogaeth. Câi cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth addas wedyn eu canfod i gynorthwyo â'r symud hwn tuag at waith.

---

<sup>1</sup> Aelwyd ddi-waith yw cartref lle nad oes unrhyw oedolyn 16 oed neu hŷn mewn cyflogaeth. Gall yr aelodau hyn fod yn ddi-waith neu'n anweithgar. Mae'n bosibl nad yw aelodau anweithgar ar gael i weithio oherwydd, er enghraifft, ymrwymïadau teulu, ymddeoliad neu astudiaethau, neu efallai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch neu anabled (ONS 2014).

<sup>2</sup> Roedd 52 Clwstwr i gyd, yn gweithredu yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

1.3 Byddai'r Mentoriaid yn chwilio am gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yn lleol. Ar lefel genedlaethol cafodd adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac eraill eu gwahodd i ehangu eu cronfa o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a allai fod yn addas yn lleol i bobl heb waith yn yr hir dymor. Roedd y rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a chyfleoedd mewn Rhaglenni Sgiliau ac Addysg. Câi'r cyfleoedd hyn eu hadnabod fel Cyfleoedd a Frocerwyd yn Genedlaethol.

### **Cwmpas ac Amcanion y Gwerthusiad**

1.4 Dyma ddwy nod gyffredinol y gwerthusiad:

- (i) Asesu sut y cafodd y Rhaglen ei sefydlu ym mhob un o'r naw ardal ynghyd â sut y câi ei gweithredu yno; a
- (ii) Rhoi syniad o'i heffeithiolrwydd wrth helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i waith neu i wneud gweithgareddau a fyddai'n rhoi hwb sylweddol i'w rhagolygon i gael swydd.

1.5 Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri cham, gyda ffocws y cam gyntaf ar ddeall y model rhesymeg oedd wrth wraidd rhaglen Esgyn. Canolbwyntiai'r ail gam ar sut y gweithredai'r Rhaglen, h.y. sut y sefydlwyd y Rhaglen ym mhob ardal a pha brosesau a ddefnyddid. Roedd y trydydd cam yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y Rhaglen wrth gyflawni ei deilliannau bwriadedig gan gynnwys dadansoddi cost a budd i gyfranogwyr y Rhaglen.

### **Dull**

1.6 Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys:

- Adolygu'r cyd-destun polisi yr oedd Rhaglen Esgyn yn gweithredu ynddo ac adolygu llenyddiaeth a oedd yn edrych ar effeithiolrwydd mentrau gweithredol yn y farchnad lafur i asesu a oedd dyluniad Esgyn wedi adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth oedd yn bodoli eisoes ynghylch 'yr hyn sy'n gweithio'.
- Adolygiad o'r systemau monitro (gan mai timau gweithredu Esgyn oedd â'r rôl 'rheolwr data') er mwyn nodi pa ddata penodol a gesglid, sut y câi ei storio ac i ba raddau y gallai'r sylfaen dystiolaeth alluogi dilyn trywydd taith a chanlyniad cyfranogwyr.
- Cyfweiliadau â thîm rheoli'r Rhaglen i drafod cynnydd, gwersi a ddysgwyd ac etifeddiaeth Rhaglen Esgyn.
- Cyfweiliadau â rheolwyr clystyrau a Mentoriaid Esgyn yn ystod pob cam er mwyn edrych ar y cynnydd a wnaed, gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau a godai wrth weithredu Rhaglen Esgyn.

- Arolwg dros y ffôn â chyfranogwyr Esgyn a oedd wedi ymwneud â'r Rhaglen am y tro cyntaf yn ystod y chwe mis blaenorol (cyfweiliad cyntaf). Cynhaliwyd yr arolwg o gyfranogwyr Esgyn ar draws tair ton (Tabl 2.1) gyda 381 o gyfweiliadau cyntaf wedi'u cynnal ledled y tair ton.<sup>3</sup>

**Tabl 2.1: Tonnau Arolwg y Cyfranogwyr**

	Mai 2016 (Cam 1)	Rhag 2016-Ion 2017 (Cam 2)	Meh-Gorff 2017 (Cam 3)
Ton 1	Cyfweiliad	Ail Gyfweiliad	
Ton 2		Cyfweiliad	Ail Gyfweiliad
Ton 3			Cyfweiliad

- Cynhaliwyd ail gyfweiliadau â chyfranogwyr y Rhaglen 6 mis ar ôl cynnal y cyfweiliad cyntaf. Ar draws y ddwy don gyntaf, ailgyfweilwyd cyfanswm o 164 o gyfranogwyr, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 55 y cant.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn hefyd yn ystod Cam 2 a Cham 3 y gwerthusiad â chyflogwyr a oedd yn ymwybodol wedi penodi cyfranogwyr Esgyn i leoliadau profiad gwaith neu i swyddi cyflogedig yn eu sefydliad, yn ogystal â chyfweld tri chynrychiolydd o'r Ganolfan Byd Gwaith i gael eu safbwynt hwy ar y broses atgyfeirio i'r Rhaglen.
- Dadansoddwyd data monitro a gasglwyd gan bob ardal gyflenwi ar gyfer cyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu â rhaglen Esgyn o fis Ionawr 2016. Cyn y dyddiad hwn, roedd anghysondebau yn y wybodaeth fonitro a gasglwyd gan yr ardaloedd cyflenwi ac felly nid oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad traws-raglen o'r wybodaeth hon ar dystiolaeth a gasglwyd cyn mis Ionawr 2016.
- Cynhaliwyd dadansoddiad effaith trwy asesu'r gwrthffeithiol (sef yr hyn a fyddai wedi digwydd heb Esgyn) trwy nodi grŵp cymharu gan ddefnyddio meini prawf dethol syml yn seiliedig ar ddata a newidynnau hanes y farchnad lafur o'r Arolwg Chwarterol o'r Gweithlu (QLFS).

<sup>3</sup> Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 43 y cant o'r boblogaeth gymwys o 892 o gyfranogwyr y cysylltwyd â hwy.

## 2. Prif ganfyddiadau ac Argymhellion

### Rhesymeg y Rhaglen

- 2.1 Er bod cyfraddau diweithdra yng Nghymru wedi gostwng yn ystod cyfnod y Rhaglen, mae'r ffigyrau cyffredinol yn celu cynnydd yng nghyfran a nifer yr oedolion sy'n ddi-waith ers dros bum mlynedd a mwy. Roedd mwy na thraean (36 y cant) o gyfranogwyr Rhaglen Esgyn yn perthyn i'r categori hwn ac ers Ionawr 2016 roedd 15 y cant o'r garfan hon o'r cyfranogwyr wedi sicrhau cyflogaeth, gan ddangos y rôl yr oedd y Rhaglen wedi'i chael wrth ymgysylltu a chefnogi unigolion y cyfeirir atynt yn aml fel rhai o'r rhai anoddaf i'w cyrraedd a'u helpu.
- 2.2 Ymddengys mai elfen allweddol yn llwyddiant y Rhaglen oedd y pwyslais ar ddarpariaeth wedi'i theilwra'n benodol i amgylchiadau unigolion fel y dangosir yn Theori Newid y Rhaglen,<sup>4</sup> gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau uniongyrchol ar yr un pryd hefyd â darparu llwybrau clir tuag at gyflogaeth.
- 2.3 Pwysleisiai rhesymeg y Rhaglen y dylai cymhwyster cymryd rhan fod yn gysylltiedig ag unigolion o aelwydydd oedd wedi bod yn ddi-waith ers mwy na chwe mis. Pan weithredwyd y maen prawf hwn yn llym, awgryma'r dystiolaeth ei fod o bosibl wedi arwain at ragfarn anghyfartal tuag at aelwydydd oedd ag un oedolyn sengl.
- 2.4 Roedd cyfyngiadau'r Rhaglen ar gymhwyster yn ôl ardaloedd daearyddol yn seiliedig ar ragdybiaethau cadarn, ac ystyrir mai Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf oedd y platfform mwyaf priodol i gyflwyno'r Rhaglen drwyddo. Wrth i'r Rhaglen ddatblygu, bu rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch y cyfyngiadau tynn ar bwy oedd yn gymwys. Elfen i'w chroesawu felly yw y bydd cynllun Cymunedau am Waith a Mwy yn gweithredu â rhagor o hyblygrwydd heb dargedu daearyddol.
- 2.5 Dywedid bod cyfranogwyr Esgyn yn gweld gwerth mawr i'r cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol a gynigid trwy Esgyn oherwydd y canfyddiad y gallai'r rhain fod yn gyfleoedd a fyddai'n arwain at yrfa gyda'r cyflogwr hwnnw. Mae'r anallu i olrhain cyfranogwyr dros y tymor hwy wedi cyfyngu ar y gallu i brofi cynaladwyedd a thaith gyrfa'r llwybrau hyn i gyflogaeth o gymharu â'r rheini oedd wedi cael cyflogaeth trwy gyflogwyr lleol neu o gymharu â'r grŵp cymharu. Byddai hwn yn faes defnyddiol i edrych arno eto yn y dyfodol i asesu'r effeithiau dros yr hirdymor.

---

<sup>4</sup> Gweler y prif adroddiad gwerthuso <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-programme/?lang=cy> i weld Theori Newid Rhaglen Esgyn

## Adnoddau

- 2.6 Roedd Rhaglen Esgyn wedi gweithredu ar gyllideb gyfyngedig, a hynny wedi'i ddangos gan y ffaith, er gwaethaf dwysedd y gefnogaeth a gynigid, ei bod yn dal yn rhatach i'w rhedeg ar sail y gost am bob cyfranogwr na'r Rhaglen Waith.<sup>5,6</sup> Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd cyflenwi, gwnaeth y Rhaglen ddefnydd effeithiol o'r plattform a gynigid gan Cymunedau yn Gyntaf gan ddibynnu (i raddau amrywiol) ar y Clystyrau o ran hyrwyddo, atgyfeirio ac ymgysylltu.
- 2.7 Roedd y model a dreialwyd mewn gwahanol leoliadau yn ceisio profi dylanwad dwysedd poblogaeth a chyfleoedd ar Raglen Esgyn. Er bod rhagor o gyfleoedd mewn ardaloedd dwysach eu poblogaeth (o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant), mae unrhyw effaith uniongyrchol ar berfformiad yr ardal gyflenwi wedi bod yn gyfyngedig; roedd yr hyblygrwydd a gynigid drwy'r Rhaglen wedi galluogi ardaloedd cyflenwi i ganfod cyfleoedd oedd yn berthnasol i'w lleoliad nhw yn ogystal ag i anghenion y cyfranogwr.
- 2.8 Roedd dyrannu adnoddau i 'Gronfa Rwystrau' wedi'i werthfawrogi'n fawr iawn gan yr holl Fentoriaid, gan fod ei hyblygrwydd a rhwyddineb ei defnyddio wedi'i galluogi i fod yn offer ymatebol iawn a allai ymateb i rwystrau wrth iddynt gael eu hadnabod.
- 2.9 Roedd dyrannu dau fentor (fel rheol) i bob ardal gyflenwi yn y Rhaglen wedi golygu cefnogaeth ddwys gan dîm o Fentoriaid medrus a phrofiadol; fodd bynnag, nid oedd yn rhoi fawr o wydnwch pe na bai unigolyn ar gael mwyach. Dylai'r symud arfaethedig oddi wrth ymyriadau o'r natur hwn sy'n seiliedig ar *ardal* arwain at gynyddu adnoddau staffio, gan felly leihau'n fawr y perygl i raglen wrth golli staff gweithredu. Er bod ansawdd y staff wedi bod yn allweddol i lwyddiant y Rhaglen, rhaid aros i weld a fydd modd dod o hyd i'r staff hyn mewn mwy o niferoedd er mwyn gweithredu ledled Cymru gyfan.
- 2.10 Yr ardaloedd cyflenwi oedd perchnogion y data tystiolaeth a gasglwyd trwy'r Rhaglen, ac mae hynny wedi cyfyngu ar unrhyw olrhain manwl ar y cyfranogwyr drwy'r Rhaglen hyd nes cam olaf y gwerthusiad. Roedd y broses hon o gasglu data yn ddwys ar adnoddau i'r ardaloedd cyflenwi a'r gwerthuswyr ill dau.

---

5 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014) *The Work Programme*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

6 Er bod y Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi cynhyrchu dadansoddiad diweddarach lle amcangyfrifir mai'r gost am bob cyfranogwr yw £1,214, maent yn disgwyl i hwn godi ymhellach wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi. Gweler: Sefydliad Dysgu a Gwaith (2016) *Work Programme Statistics – Learning and Work Institute Analysis*, Sefydliad Dysgu a Gwaith

## Argymhellion

- Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, dylid defnyddio fformiwla ariannu i ddyrannu adnoddau sy'n adlewyrchu'r angen mewn ardal darged yn ogystal â'r targedau cyflawni arfaethedig.
- Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, dylid cytuno yn gynnar ar ofynion clir ynghylch data cyfranogwyr, a defnyddio profiad gwerthusiadau effaith blaenorol.
- Dylai rhaglenni yn y dyfodol fabwysiadu dulliau cyson o gasglu a chategoreiddio'r wybodaeth a gasglwyd.
- Dylai rhaglenni yn y dyfodol sicrhau bod y data a gasglwyd yn cael ei lanlwytho i gronfa ddata ganolog er mwyn galluogi cynnal asesiad cymharu yn ogystal â sicrhau fod y data a gesglir yn gynhwysfawr ac yn gyson.
- Mae angen rhoi digon o adnoddau ac amser paratoi er mwyn galluogi datblygu canllawiau manwl ar ofynion a disgwyliadau'r rheiny sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau.

## Gweithgareddau

- 2.11 Roedd Rhaglen Esgyn yn ddibynnol iawn ar atgyfeiriadau i lwyddo, gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yn parhau i fod y ffynhonnell atgyfeirio amlycaf drwy'r Rhaglen. Beth bynnag fo'r llwybr atgyfeirio, gwelwyd mai cysylltiadau unigol yn hytrach na chysylltiadau sefydliadol oedd yn allweddol i lwyddiant (neu fel arall) y llwybrau hyn. Ffactor arall a oedd yn helpu'r ymgysylltu oedd lleoliad cynnig Esgyn. Yr ardaloedd cyflenwi oedd â'u cyfleusterau mewn lleoliad amlwg gyda nifer fawr o bobl yn cerdded heibio oedd wedi elwa fwyaf o ymgysylltu ad hoc trwy gael pobl yn galw heibio neu'n hunangyfeirio.
- 2.12 Mae integreiddio â Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn amrywiol ei lwyddiant ac ar adegau mae wedi achosi dryswch ymhlith rhanddeiliaid allanol yn ogystal â rhwng staff Esgyn a'r Clystyrau.
- 2.13 Mae cyflwyno Cymunedau am Waith wedi cael effaith amrywiol; mewn rhai ardaloedd roedd wedi arwain at fwy o gystadleuaeth am gyfranogwyr tra mewn ardaloedd cyflenwi eraill roedd wedi bod yn gynnig defnyddiol ategol a'r ddwy raglen wedi elwa o hynny.
- 2.14 Ystyrid bod meithrin ymddiriedaeth yn gynnar yn y broses yn hanfodol i berthynas lwyddiannus â chyfranogwr. Bu'r cysylltiad â'r Clwstwr, y diffyg cysylltiad â darpariaeth gwasanaethau prif ffrwd, natur wirfoddol yr ymgysylltu a dull anffurfiol y mentoriaid o ganolbwyntio ar yr unigolyn, oll o gymorth yn hyn o beth.

- 2.15 Nid oedd yn anghyffredin i gyfranogwyr Rhaglen Esgyn gael cymorth am 12 mis neu hirach, gyda chyfranogwyr wedi'u cyfyngu'n aml gan rwystrau lluosog a chymhleth rhag cael cyflogaeth. Roedd integreiddio effeithiol â darpariaethau lleol eraill, gan gynnwys yr hyn a gynigid drwy'r Clwstwr, wedi galluogi broceru cymorth ehangach os oedd blaenoriaethau / rhwystrau uniongyrchol angen eu datrys cyn gallu rhoi cymorth Esgyn.
- 2.16 Roedd y pwysigrwydd a roddwyd ar gynllunio gweithredu ym model gweithredu Esgyn yn amrywio o ardal i ardal a rhwng y cyfranogwyr ac mae hyn yn dystiolaeth bellach o hyblygrwydd y model wrth alluogi mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yn lleol. Gwnaed hyn yn bosibl trwy'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Rhaglen, gan felly roi mwy o hyblygrwydd nag a geid mewn gweithgarwch wedi'i ariannu gan Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop.
- 2.17 Wrth i'r berthynas rhwng cyflogwyr a thimau gweithredu lleol ymsefydlu, cynyddu wnaeth nifer, amrywiaeth a lledaeniad y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol. Yn y flwyddyn olaf roeddent yn 10 y cant o'r holl gyfleoedd, gan ddangos potensial cydweithredu trawsadrannol ar gynlluniau cyflogaeth.

### **Argymhelliad**

- Mewn cynlluniau cyflogadwyedd yn y dyfodol, dylid parhau i geisio cael cydweithredu trawsadrannol wrth ddarparu cyfleoedd sy'n ymwneud â chyflogaeth.

### **Canlyniadau**

- 2.18 Gweithredodd y Rhaglen ar y blaen i'w phroffil o'r dechrau un gan gyflawni ei tharged o ddarparu 5,000 o gyfleoedd sawl mis yn gynt nag a ragwelwyd.
- 2.19 Roedd bron i un o bob tri o gyfranogwyr Esgyn wedi llwyddo i gael canlyniad cyflogaeth, gan ragori ar yr hyn a gyflawnwyd ar ôl 12 mis o gefnogaeth ar y Rhaglen Waith. Roedd gan un o bob chwech o'r cyfranogwyr gymwysterau is na Lefel 2 ac wedi bod yn ddi-waith ers mwy na phum mlynedd cyn cael gwaith cyflogedig, gan ddangos llwyddiant y Rhaglen yn cefnogi'r grwpiau hyn.
- 2.20 O safbwynt canlyniadau, mae'r Rhaglen wedi rhagori ar y disgwyliadau. Ceir dystiolaeth o symud ymlaen ar y daith tuag at gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr hynny sy'n parhau i fod heb waith, gan gynnwys cynnydd mewn hyder o fedru cadw swydd. Mae'r dangosyddion lles wedi codi hefyd ymysg y rheiny oedd yn rhan weithredol o'r Rhaglen. Cydnabyddir yn eang bwysigrwydd yr effeithiau hyn ar y cyfranogwyr, ond mae'n anodd ei fesur trwy ddadansoddi cost a budd.

2.21 Oherwydd pwysau adnoddau ar dimau gweithredu Esgyn, roedd y gefnogaeth ar ôl i gyfranogwyr gael cyflogaeth yn llai strwythuredig na'r hyn a ragwelwyd. Awgryma adborth gan gyflogwyr y byddai croeso i'r math hwn o gefnogaeth o gofio natur y rhwystrau sydd gan y cohort hwn.

### **Argymhellion**

- Dylid darparu adnoddau penodol i gynorthwyo cyfranogwyr a chyflogwyr pan fo cyfranogwyr yn mynd i leoliad gwaith neu gyflogaeth.
- Dylid sefydlu naratifau clir sy'n gysylltiedig ag allbynnau a chanlyniadau (cyfleoedd yn yr achos hwn) i sicrhau bod eglurder a chysondeb yn y ffordd y caiff y rhain eu dehongli a'u cofnodi.
- Dylid darparu dangosyddion ychwanegol wrth fonitro rhaglenni o'r math hwn er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth o'r rôl ehangach sydd gan Fentoriaid y tu hwnt i gefnogaeth cyflogadwyedd.
- Dylid rhoi mecanweithiau ar waith i alluogi casglu data cyfranogwyr mewn da bryd ar gyfer gwaith maes sylfaenol ar adegau allweddol yn nhaith y cleient trwy raglen gymorth.
- O ran dulliau cyfweld ac ail gyfweld yn y dyfodol i olrhain cyfranogwyr, dylid cynnal y rhain dros amserlenni sy'n cyd-fynd â'r grŵp cymharu er mwyn cynorthwyo wrth asesu'r effaith ar gyfranogwyr.
- Dylid archwilio opsiynau ar gyfer olrhain cyfranogwyr i'r hirdymor ar ôl diwedd y rhaglen, yn enwedig lle ystyrir bod cadw tebygol ar swydd gyflogedig yn elfen allweddol o ychwanegolrwydd sy'n deillio o'r gefnogaeth sydd ar gael.

### **Effaith a Gwerth am Arian**

- 2.22 Mae asesu gwerth am arian Rhaglen Esgyn trwy ddadansoddi effeithiolrwydd cost yn arwain at gost fesul canlyniad cyflogaeth o £3,744. Mae hyn ar ben isaf y ffigyrau a ragwelwyd yn y cynllun busnes ac mewn cynlluniau cyflogadwyedd yn gyffredinol. O gofio'r grŵp targed a gefnogwyd drwy'r Rhaglen, ar sail y dadansoddiad hwn mae'r Rhaglen yn werth da iawn am arian.
- 2.23 O ran y dadansoddi cost a budd ehangach, mae nifer o gyfyngiadau yn y set ddata sy'n tanseilio cadernid y dull. Mae natur dargeddedig Rhaglen Esgyn a'i hymgysylltiad â'r rheiny a ystyrir fel rheol i fod y rhai anoddaf i'w cyrraedd a'u cynorthwyo yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith mai dim ond nifer fach o'r unigolion yn yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu (sef ffynhonnell y grŵp cymharu) sy'n cyfateb â phrif nodweddion cyfranogwyr Esgyn.



- 2.24 Roedd maint bach y sampl a'r diffyg gwybodaeth fanwl am y lleoliadau daearyddol yn yr Arolwg o'r Llafurlu yn ei gwneud hi'n amhosibl rheoli ar gyfer cyd-destun economaidd-gymdeithasol y grŵp cymharu. Yn hyn o beth, anodd iawn yw cynnal dadansoddiad cost a budd cadarn ar gynllun sydd wedi'i dargedu'n llym ar ardal benodol.
- 2.25 Awgryma ymchwil y Llywodraeth<sup>7</sup> a gwerthusiadau eraill<sup>8</sup> fod adroddiadau hanes unigolion yn y farchnad lafur sydd yn yr Arolwg o'r Llafurlu yn llai dibynadwy na'r data gweinyddol a gesglir yn rheolaidd gan DWP. Er hyn, nid yw DWP wedi rhyddhau data hanes llawn y farchnad lafur at ddibenion gwerthuso rhaglenni. Pe bai'r wybodaeth hon ar gael, byddai'n cryfhau'n fawr gadernid y dadansoddiad cost a budd ac yn galluogi pennu grŵp cymharu sy'n cyfateb yn well.

### **Argymhelliad**

- Dylid ceisio cael cytundebau â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i rannu gwybodaeth weinyddol er mwyn gwella dilysrwydd data hanes y farchnad lafur ar gyfer grŵp cymharu a chynyddu pwysigrwydd y dadansoddiad ystadegol sy'n sail i'r dadansoddiad cost a budd.

## **3. Casgliadau**

- 3.1 Roedd Rhaglen Esgyn wedi gweithredu'n llwyddiannus fel rhaglen gyflogadwy hyblyg a dargedai yn ddaearyddol, gan gefnogi unigolion oedd yn bell o'r farchnad lafur.
- 3.2 Gweithredodd y Rhaglen drwy fodel gweithredu effeithlon, gan ddefnyddio isadeiledd oedd yn bodoli eisoes a thargedu'r adnoddau ar gyfranogwyr y Rhaglen. Roedd yr adnoddau prin a oedd yn gysylltiedig â'r Rhaglen serch hynny wedi cyfyngu ar ei gwydnwch wrth gollu staff yn yr ardaloedd cyflenwi, staff a oedd wedi chwarae rhan hanfodol yn ei llwyddiant.
- 3.3 Ymddengys mai elfen allweddol yn llwyddiant y Rhaglen oedd y pwyslais ar ddarpariaeth bersonol wedi'i harwain gan gyfranogwyr, a meithrin ymddiriedaeth fel sylfaen i'r model. Dangosir tystiolaeth o'r pellter a deithiwyd tuag at y farchnad lafur trwy gynnydd yn hyder cyfranogwyr y gallent gadw swydd yn ychwanegol at effeithiau lles cadarnhaol.
- 3.4 Mae'r Rhaglen hefyd yn cyflwyno tystiolaeth glir o symud cyfranogwyr yn gyflymach i gyflogaeth ac mae wedi sicrhau canlyniadau cyflogaeth yn gost-effeithiol i bron i draean o'r cyfranogwyr, a llawer o'r rheiny erioed wedi gweithio o'r blaen neu wedi bod yn ddi-waith ers dros bum mlynedd.

---

<sup>7</sup> Bibby, D et al. (2015). *Impact of Skills and Training Interventions on the Unemployed: Phase I Report*. Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Papur Ymchwil. 158

<sup>8</sup> Sefydliad Dysgu a Gwaith a Wavehill (2016) *Gwerthusiad o'r Peilot ar gyfer Amodoldeb Sgiliau: Adroddiad Terfynol Llywodraeth Cymru*

Oliver Allies

wavehill

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad llawn yr ymchwil ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-programme/?skip=1&lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siân Williams

Yr Is-Adran Gymunedau

Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful, CF48 1UZ

Ebost: [Sian.Williams50@gov.wales](mailto:Sian.Williams50@gov.wales)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol 978-1-78937-354-7